

Templed: Datganiad Ysgol Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026 i 2027

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academiaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Y Gelli
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	213
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	5.24%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	28/09/26
Dyddiad y caiff ei adolygu	30/09/26
Awdurdodwyd y datganiad gan	Buddug Roberts
Yn arwain ar y GDD	Buddug Roberts
Llywodraethwr sy'n arwain	Ffion Lovgreen

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	£12,650

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Ein nôd yw gwella ein darpariaeth ar gyfer plant sydd yn gymwys i'r grant GDD. Rydym wedi penodi'r bwriad yma fel un o Flaenoriaethau ein CDY 2026-2027. Rydym yn awyddus i gynllunio Cwricwlwm Amgen ar gyfer grwpiau llai o blant er mwyn datblygu eu sgiliau darllen, sgiliau rhifedd yn ogystal a hyrwyddo ei ymrwymiad i addysg a'u hunanhyder.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Codi canlyniadau sgôr safonedig dysgwyr sydd yn gymwys i GDD mewn Asesiadau Personol Darllen Saesneg a Rhifedd.	Yn y flwyddyn 2025-26 roedd 90%o blant PYD wedi sgorio'n is na chyfartaledd y dosbarth yn yr Asesiadau Personol. Rydym yn awyddus i godi'r cyfartaledd sydd yn sgorio yn gyfartal neu'n uwch na chyfartaledd y dosbarth o 10% i 25% mewn Darllen Saesneg a Rhifedd erbyn tymor yr Haf 2027.
Rydym yn bwriadau defnyddio'r grant sefydlu grwpiau Cwricwlwm Amgen er mwyn gwella meddylfryd, hyder ac ymrwymiad y plant sydd yn gymwys i GDD yn eu haddysg	Mae holiaduron PASS yn amlygu fod 77% o blant PYD yn dangos agwedd negyddol tuag at sawl agweddau o fywyd ysgol. Rydym yn awyddus i leihau y rhif yma i 50% yng nghanlyniadau PASS tymor yr Haf

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Rydym wedi pennu Blaenoriaeth o'r CDY 2026-27 ar gyfer gwella darpariaeth plant ADY sydd yn cynnwys plant PYD sef: 'Addasu Darpariaeth ADY er mwyn cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer grwpiau targed.'

Bydd hyn yn cynnwys addasu amserlen yr ysgol er mwyn rhyddhau plant o'r dosbarthiadau i gael gweithio mewn grwpiau llai. Bydd Cydlynnydd ADY yn rhoi

arweiniad i athrawon dosbarth ac i gymorthyddion ar sut i gynllunio Cwricwlwm Amgen cyfoethog a fydd yn diwallu anghenion y plant sydd mewn grwpiau llai.

Bydd y Cydlynnydd yn monitro effeithiolrwydd y Flaenoriaeth yn rheolaidd ac yn addasu'r ddarpariaeth fel bo'r angen.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £ 12,650

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Rhyddhau Cydlynnydd ADY ar gyfer cynllunio a monitro y ddarpariaeth	Mae gan Gydlynnydd ADY yr ysgol wybodaeth a dealltwriaeth dda o anghenion y plant sydd angen cymorth wedi'i dargedu yn y dosbarth. Drwy ddefnyddio ei harbenigedd, gall arwain a chefnogi cydweithwyr i gynllunio gweithgareddau cwricwlwm amgen, cyfoethog ac ysgogol sy'n apelio at ddiddordebau'r plant ac yn sicrhau eu hymrwymiad a'u hymgysylltiad â'u dysgu. Bydd hefyd yn gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth mewn grwpiau yn rheolaidd ac yn gyson, gan wneud addasiadau priodol yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu'n effeithiol.
Cynyddu oriau cymhorthydd a fydd yn cynnal y grwpiau llai ac yn gweithredu'r Cwricwlwm Amgen	Mae holiaduron PASS ac adnabyddiaeth yr ysgol o'r plant yn arddangos fod y plant sydd yn deilwng o GDD yn teimlo o dan bwysau ac wedi'u llethu mewn dosbarthiadau mawr trwy'r dydd. Yn aml, gallant ei chael hi'n anodd canolbwyntio, ac mae maint y gwaith a'r disgwyliadau yn gallu teimlo'n ormod iddynt. Byddai cyfnodau o weithio mewn grwpiau llai yn fwy buddiol, gan y byddent yn cael mwy o sylw unigol gan oedolyn sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n deall eu hanghenion. Byddai hefyd yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol mewn amgylchedd llai a mwy cefnogol, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n apelio at eu diddordebau. Byddai hyn yn helpu i feithrin eu hyder, gwella eu hymgysylltiad â dysgu a datblygu agwedd fwy cadarnhaol tuag at yr ysgol. Mae ymchwil gan yr EEF yn dangos y gall addysgu mewn grwpiau llai gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant sy'n fregus neu sydd angen cymorth ychwanegol. Mae Estyn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio staff cymorth medrus er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac academaidd disgyblion.

Archebu adnoddau a fydd yn cefnogi'r Cwricwlwm Amgen	Mae prynu adnoddau ychwanegol yn hanfodol er mwyn gallu darparu cwricwlwm amgen pwrpasol i grwpiau bach o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd yn elwa o ddulliau dysgu mwy ymarferol a hyblyg. Bydd yr adnoddau yn galluogi'r ysgol i ddarparu gweithgareddau sy'n briodol i anghenion, galluoedd a diddordebau'r plant, gan gynyddu eu hymgysylltiad a'u cymhelliant i ddysgu.
--	---

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £0

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
N/A	N/A

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £0

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
N/A	N/A

Cyfanswm cost y ceisiadau: £12,650

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academiaidd 2025 i 2026

Gweithgarwch	Effaith
Cynyddu oriau cymhorthydd i godi safonau darllen Cymraeg plant oedd yn deilwng i GDD	Yn y CDY 2025-26 rhoddwyd sylw i godi safonau darllen plant a oedd yn tanberfformio mewn Darllen Cymraeg yn benodol. Cynyddwyd oriau Cymhorthydd i weithio efo grwpiau o blant PYD drwy greu grwpiau targed i ddarllen y rheolaidd yn y dosbarthiadau.

	Yn ogystal a hyn, fe drefnwyd fod gwirfoddolwriag lleol yn dod i'r ysgol bob pŵawr Llun efo ci (wedi ei hyfforddi) i wrando ar plant bregus yn darllen. Fe roedd y gweithgaredd yma yn llwyddiannus iawn – gyda'r plant sydd fel arfer yn gwrthod darllen, yn ymateb yn bositif ac wrth eu boddau yn darllen i Ned y ci. Wrth gymharu canlyniadau Asesiadau Personol Darllen Cymraeg 2026 i 2025 gwelwyd fod 88% o blant PYD wedi gwneud cynnydd.
--	---

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
N/A	N/A